# y Dinesydd

CYLCHGRAWN NEWYDDION CYMRAEG CAERDYDD   RHIF 186   MEDI 1992   65c



# Anhawster cofrestru babanod yn Gymraeg yng Nghaerdydd

**Mae dewis defnyddio mamiaith i gofrestru babanod newydd wedi llithro o afael beunyddiol pob un o deuluoedd Cymraeg Caerdydd.**

Ers misoedd bellach nid yw'r Gofrestrfa yn Heol y Parc wedi gallu cofrestru babanod newydd yn Gymraeg oherwydd salwch yr unig aelod o'r staff yno a allai wneud – ac mae'n amheus a fydd hi'n dychwelyd i'w gwaith.

Mae'n ofynnol cofrestru baban newydd o fewn 42 diwrnod o'i eni; dyna sy'n caniatau i'w rieni allu hawlio budd-daliadau ac i'w gofrestru â meddyg ac ati.

Erbyn hyn, er mwyn cofrestru plentyn yn Gymraeg – neu'n ddwyieithog â bod yn fwy cywir – mae'n rhaid i rieni Caerdydd deithio i'r Barri, lle mae Mrs C Frieze, sy'n ddysgwraig, wrth y llyw ac yn barod i gymryd y manylion cofrestru yn ddwyieithog.



• Bywyd Cymraeg yn mynd rhagddo – ond cyfarwyn swyddogol Saesneg sy'n gyffredin yng Nghaerdydd

Mae'r un broblem hefyd yn wynebu pobol sy'n dymuno cofrestru marwolaethau a phriodasau yn Gymraeg, er bod y gwasanaeth cofrestru'n fodlon trefnu bod y cofrestrydd o'r Barri yn dod i Gaerdydd os oes gofyn am hynny.

Dywedodd Alan Richards, Prif Gofrestrydd De Morgannwg bod "problem yn bodoli yn sgil salwch aelod o'i staff", ond eu bod yn fodlon gwneud pob ymdrech i ateb gofynion unigolion sy'n dymuno defnyddio'r gwasanaeth Cymraeg.

Er fod holl broses cofrestru De Morgannwg bellach yn seiliedig ar raglen gyfrifiadurol sy'n cynnig cofrestru'n Saesneg neu'n ddwyieithog – ac sy'n awtomatig yn cyfieithu elfennau fel dyddiadau – mae'n rhaid hefyd fod yr hysbysydd a'r cofrestrydd ill dau yn deall yr iaith a ddefnyddir. Nid yw'n bosib felly i aelod uniaith Saesneg o staff y Gofrestrfa fynd drwy'r broses gofrestru ddwyieithog.

Er bod y gwasanaeth dwyieithog ar gael, cyfaddefodd Alan Roberts mai ar gyfartaledd 150 o gofrestriadau dwyieithog yn unig a wneir yn Ne Morgannwg yn flynyddol, ac unwaith y cofrestrir yn Saesneg, nid oes modd ei newid i un dwyieithog.

Mae'n syndod bod nifer y corfestriadau dwyieithog blynyddol mor isel, yn enwedig o ystyried y twf mewn addysg Gymraeg yng Nghaerdydd, a'r ffaith mai'r cwestiwn cyntaf a ofynnir wrth agor y raglen gyfrifiadurol yw a ydy'r hysbyswyr yn dymuno cofrestru'n ddwyieithog.

Ar hyn o bryd nid oes modd cyflogi staff ychwanegol i gynnig gwasanaeth dwyieithog gan Gofrestrfa De Morgannwg. Pan daw swyddi cofrestrwyr yn wag fe'u hysbysebir yn bennaf o fewn Cyngor De Morgannwg. Nid oes rheidrwydd nodi Cymraeg fel cymhwyster angenrheidiol, er y byddai gallu'r iaith yn ddymunol.

Yn wyneb yr anawsterau presennol, mae Alan Richards yn annog pawb sy'n dymuno cofrestru genedigaeth, priodas neu farwolaeth yn Gymraeg i gysylltu â'i swyddfa ymlaen llaw er mwyn sicrhau bod y staff priodol ar gael yno ar amser penodedig er mwyn gallu gwneud y gwaith.

Cynllunio o flaen llaw yw'r neges – ac sy'n ymestyn y broses cynllunio teuluol ymhell o'r stafell wely.




yn

## AMGUEDDFA WERIN CYMRU


**Sadwrn a Sul, 26 a 27 Medi**

**10.00am - 5.00pm**

*Dowch i fwynhau :*

Ail-agoriad ffermdy Abernodwydd (am 2.00 bnawn Sadwrn); Cyflwyniadau hanes byw gan 'The Sealed Knot Society'; Aredig, dyrnu, trin cwn defaid, gwneud cesig medi, a llu o grefftau eraill; Gweithdai i blant; Dawnsio gwerin; Cwrdd diolchgarwch yng Nghapel Penrhiw (am 3.00 bnawn Sul); a llawer mwy!

Am wybodaeth bellach ffonier Caerdydd (0222) 555105



Welsh National **OPERA** Cenedlaethol Cymru

**Y THEATR NEWYDD CAERDYDD**
**0222 394844**
19, 25, 29 Medi, 11 a'r 14 TACHWEDD 7.15y.h.

**THEATR Y GRAND ABERTAWE**
**0792 475715**
6 TACHWEDD 7.00y.h.

***ARCHEBWCH YN AWR!***

RICHARD STRAUSS

# ELEKTRA

CENIR YN ALMAENEG

CYNHYRCHIAD NEWYDD Â LWYFANNIR GAN GREUWYR **TAITH BYD Y PET SHOP BOYS**

***GRYM THEATRAIDD FOLCANIG - CHWEDL AM DDIAL DIDOSTUR***

Hoffwn dderbyn gwybodaeth am gynyrchiadau Opera Cenedlaethol Cymru

Enw ..........

Cyfeiriad ..........

.......... Côd Post .......... Ffôn ..........

Dychweler at: Adran Farchnata, Opera Cenedlaethol Cymru, John Street, Caerdydd CF1 4SP. Ffôn 0222 464666

## Adran Addysg Barhaol
## Prifysgol Cymru Coleg Caerdydd



C A E R D Y D D

### Cyrsiau Iaith a Llên

### Drwy Gyfrwng y Gymraeg


### Cyrsiau WLPAN
### a Chyrsiau Uwch i Ddysgwyr

Prospectus 1992-93 yn rhad ac am ddim oddi wrth:
Adran Addysg Barhaol,
38 Heol y Parc, Caerdydd CF1 3BB
(0222-874831/2)


## LLYFRAU NEWYDD GAN HUGHES

Dyma'r cyntaf mewn cyfres
o ail-argraffiadau o glasuron Hughes

**DEIAN A LOLI**
gan Kate Roberts
£3.95




**O GORS Y BRYNIAU**
gan Kate Roberts
£3.95




HUGHES

**Cysylltwch â ni â'ch newyddion: 0222 578772**

## Cadi Llwyd yn sbecian

Yn ôl pob tebyg mae Gwilym Hughes o Ddolgellau wedi torri record y byd – mae e wedi gweld 21,000 o ffilmiau, er nad oes 'na sinema yn Nolgellau.

Fe wyddom i gyd am Dan Quayle, Dirprwy Arlywydd America, a'i ddawn gynhenid o roi ei ddwy droed fawr yn ei geg. Un o'r gaffs diweddara oedd dysgu plentyn ysgol i sillafu 'potato' drwy ychwanegu 'e' at ddiwedd y gair. Ond yn ôl pob tebyg dyma sut mae'r archfarchnad Tesco yn sillafu'r gair ar y bil talu. Mae'n bryd i'r cwmni wahodd Quayle i ymuno â'r Bwrdd, mae'n amlwg.

Yn fy mywyd diwethaf, arferwn fod yn sgript El Dorado. Dyna ddywed slogan ar bapur tŷ bach Nouvelle, y cwmni sy'n ail-gylchu papur.

Mae'r canwr Tom Jones, o Bontypridd gynt, yn cyfaddef ei fod yn cael sioc wrth edrych yn y drych. "Pan fydda i'n mynd heibio i ddrych, rwy'n meddwl 'Pwy cflwydd yw hwnna?'"

Dydy'r bobol sy'n dweud fod Siân Lloyd (y ddynes tywydd gyda'r geg india rwber) ddim yn gall yn ôl M Hunter o Coventry, pan fyddan nhw'n dweud ei bod hi'n 'sexy'. Mae ei 'chest' hi'n fflat, ei phen yn sgwâr, a'i hwyneb hi'n 'pot ugly'.

Pan ddaeth y Chippendales i Landudno yn ddiweddar, gwnaethon nhw ddawnsio i faled ramantus i un o'u dilynwyr selocaf, Margaret Evans sy'n 94 oed. "Wna i ddim anghofio'r noson" meddai'r fythol ifanc Farged.

Daeth y ficer Dewi Jones lawr i'r ddaear â sblat ar ôl neidio 3000 troedfedd allan o awyren â pharasiwt ger Bangor. Disgynnodd i ganol dom gwartheg.

**ADDYSG**

## COMEDI A WALDO

**MAE ADRAN** Addysg Barhaol Coleg Caerdydd eleni eto yn cynnig rhychwant eang o gyrsiau iaith a llên drwy gyfrwng y Gymraeg, a chyrsiau ar gyfer dysgwyr o bob lefel.

Paratowyd prosbectws sydd ar gael am ddim drwy gysylltu â Gwen Awbery ar 874831/2 neu Chris Rees ar 390980.

**CYMDEITHAS YR IAITH**

## HYDREF PRYSUR I GELL Y DDINAS

**MAE CYMDEITHAS** yr Iaith yn disgwyl cannoedd i ymgynnull gerbron y Swyddfa Gymreig ymhen y mis er mwyn protestio yn erbyn Deddf Iaith arfaethedig y Llyw-odraeth.

Mae'r Gymdeithas yn pryderu y bydd cynnwys y Ddeddf yn wan, heb newid rhyw lawer ar hawliau presennol y Gymraeg, ac y byddai deddfwriaeth felly yn cau'r drws ar unrhyw wella yn y sefyllfa am flynyddoedd maith.

Dymuna'r Gymdeithas weld Deddf Iaith sy'n seiliedig ar ddwyieithrwydd naturiol lle mae pob dim sy'n cael ei anelu i'r gymuned yn naturiol yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Cynhelir y rali ar 3 Hydref, a'r bwriad yw amgylchynnu'r Swyddfa Gymreig, pan fydd siaradwyr fel Hywel Teifi Edwards, Emyr Llewelyn, Angharad Tomos ac Alun Llwyd yn annerch.

Yn ystod mis Medi bydd grŵp o swyddogion ac aelodau Cymdeithas yr Iaith yn ymweld â changhennau'r Gymdeithas ym mhob un o ysgolion uwchradd Cymraeg y de-ddwyrain, gan gychwyn yn Ysgol Llanhari ar 14 Medi, a dod â'r daith i ben yn Ysgol Glantaf ar 23 Medi.

Bwriad y daith yw trafod dogfen newydd Cymdeithas yr Iaith *Rhyddid i'r Ifanc* sy'n trafod hawliau a rôl pobol ifanc heddiw.

**YN SYDYN**

## SMT I'R ITC



**STELLA MAIR THOMAS** (llun) o Landaf sy'n olynu Eirion Lewis fel Swyddog Cymru y Comisiwn Teledu Annibynnol.

Tan yn ddiweddar bu'n Gyfarwyddwr Marchnata cwmni cynhyrchu yr Heritage Corporation o Iwerddon. Cyn hynny bu'n Bennaeth Cysylltiadau Cyhoeddus HTV Cymru.

**THEATR**

## TYMOR CYMRAEG AR LWYFAN

**DROS** y ddeufis nesaf bydd llwyfannau'r Sherman a Chapter yn diasbedain i gynhyrchiadau newydd sbon ar daith, gyda thri chwmni yn perfformio cynhyrch-iadau yn y ddinas.

Yn Theatr y Sherman llwyf-ennir *Andorra* gan Max Frisch (9-12 Medi), hanes gafaelgar am erle-digaeth a brad, gan aelodau o Ysgol Haf y theatr.

Eryl Phillips yw cyfarwyddwr *Andorra*, ac yntau hefyd fu'n arwain grŵp o bobol ifanc drwy ymarferion trwyadl a hyfforddiant technegol ar gyfer cynhyrchu'r ddrama.

Noddwyd yr Ysgol Haf gan TAC (Teledwyr Annibynnol Cymru), a hon oedd yr ysgol gyntaf o'i bath drwy gyfrwng y Gymraeg yn y Sherman.

I'r Sherman hefyd daw drama fuddugol Tlws yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. Cwmni'r Arad Goch fydd yn perfformio *Yn Ein Dwylo* (5-6 Hydref) gan Pam Palmer.

Lleolir y ddrama yn Lithuania ar ddechrau 1991 pan oedd y wlad yn ymryddhau o'i hualau Sofietaidd, ac adroddir hanes mam sy'n gwneud safiad gwleidyddol am y tro cyntaf yn ei hoes.

Yn y Sherman o 20 Hydref perfformir *Llwybr Adref*, hanes bachgen sydd ar goll mewn coedwig yn dod o hyd i'w ffordd adref gyda chymorth creaduriaid.

Mae'r ddrama hon i blant dan bump yn cael ei chynhyrchu yn sgil llwyddiant *Y Plentyn Coll* a berffor-miwyd yn y Sherman y llynedd.

Bydd Cwmni Whare Teg hefyd ar waith yn y Sherman ar 16-17 Hydref gyda'u cynhyrchiad arswyd-us am deulu'n byw ar glogwyn emosiynol, yn *Gwaed Oer* gan Mich-ael Povey ar gyfer plant 6-12 oed.

Yn Chapter ar 29-30 Medi bydd Theatr Had o Gaerdydd yn perfformio addasiad newydd sbon o ddrama Strindberg *Dawns Angau*. Mae hon yn gomedi dywyll swreal sy'n canolbwyntio ar briodas uffern y Capten a'i wraig Alis.

• isod Eryl Phillips a rhai o aelodau Ysgol Haf y Sherman



**Copi mis Hydref i gyrraedd erbyn 21 Medi 1992**

y Dinesydd
Parc Afon, Bridge Road, Ystum Taf
Caerdydd CF4 2JL
0222 578772 fax 0222 567639
hysbysebu 0222 598243
Golygydd Shân Emlyn
Cynhyrchu Sorrexit
© 1992

COLOFN SHÂN

# ALED AC IFAN

SHÂN EMLYN

**WEL,** mi rydw i'n Nain Shân am yr eildro! Do, fe gyrhaeddodd Aled Emyr ar 10 Awst – ac ar frys i gyrraedd yr hen fyd 'ma. Ni chymerodd hi ond hanner awr i gyrraedd pen ei daith. A bu'n ddigon meddylgar i adael i'w Nain Shân gael mwynhau'r Eisteddfod ar ei hyd. Plesio braidd!

A beth oedd ymateb Ifan Emyr? Cryn syndod ar y dechrau – a chryn benbleth hefyd. Ddeuddydd ar ôl ei eni, â Mari a'r bychan yn dal yn yr ysbyty, bu raid i Emyr gychwyn yn blygeiniol am ddiwrnod o waith yng Nghaerdydd. Felly, dim ond Ifan a finna oedd yn brecwasta â'n gilydd. Wrth fwyta'i dôst, mae'n arferiad ganddo weld siâp rhywbeth neu'i gilydd ar ôl bob cegaid – mae'n goeden un funud, yna'n lori ac yn y blaen. Ar ôl i mi gydnabod y



• Shân Emlyn

goeden a'r lori, fe roddodd ei dost i lawr ar ei blât, a dweud "Nain Shân?". "Ia?". "Be 'dan ni'n mynd i neud efo'r babi newydd 'ma dwad?". "Wn 'im. Be wnawn ni?". Crychodd ei drwyn a'i dalcen a deud "Ei werthu fo i'r dyn glo, ia?!" (Dyna'r bygythiad a gaiff o pan fo'n hogyn drwg). "Dwi'm yn meddwl y gwnawn ni hynny, 'sti!" medda finna. Ac efo'r un crychiad trwyn a thalcen, ac awgrym o resyn, medda fo "Na wnawn, mae'n siwr"!

Pleser oedd cael bod ar eu haelwyd a rhannu'r llawenydd â nhw. Mari'n iach fel cneuen, a sgrech o hapusrwydd wedi iddi ddod adre wrth iddi lwyddo i wisgo jins a darganfod mai dim ond pedwar pwys sydd angen ei golli.

Noson wedi i Mari a'r bychan ddod adre, cês y profiad cyntaf o warchod Ifan ac Aled, tra'r aeth Mari, Emyr a Modryb Elin i lawr i'r dafarn leol, Gardd Fôn, i ddathlu'r achlysur â'u cwmni arferol yn y Felinheli.

Cyn y geni rôn i wedi bod yn meddwl a fyddai gen i ddigon o gariad i'w rannu rhwng dau? Er mai bwndel bach bodlon yw Aled ar hyn o bryd, ac Ifan yn glamp o gymêr, fe wn i nawr bod modd caru dau, ac edrychaf ymlaen at weld cymeriad yr ail ddyn bach yn fy mywyd yn datblygu. Braint a phleser fydd hynny.

MENNA'N MANYLU

# NÔL YN ISRAEL

MENNA MEDI

**TRAFAELIO** i anialwch Jiwdea i weld Abaty Sant George yng Nghwm Kelt oedd y fenter nesa – trigfan y Proffwyd Elias a lle roedd Ioan Fedyddiwr yn byw fel meudwy.

Er bod mynaich Groegaidd yn parhau i fyw yma, cofiwn amdano fel y lle gafodd Joachim (taid Iesu) neges gan angel yn dweud fod ei wraig, Anna, yn mynd i esgor ar blentyn arbennig, sef y Forwyn Fair.

Nid nepell o'r fan hyn honnir fod Glyn Cysgod Angau, a hefyd y lle agosaf at Dduw drwy'r holl fyd.

Ond dyma gyrraedd Jericho. Er mai hon oedd y Lan Orllewinol roedd milwyr Iddewig yma fel pobman arall yn Israel. Cael fy siomi o weld yr enwog wal yn nemor ddim o beth!

Fyny i Ogledd Israel, a phasio llawer o'r Bedouins mewn cilfachau diarffordd yn eu pebyll o grwyn geifr. Ymweld â Tagbha a'r eglwys ger Môr Galilea sy'n dynodi gwyrth Porthi'r Pum Mil, a'r garreg wreiddiol (?!) y safodd Iesu arni.

Picio i Gapernaum, pentre lle trigai Iesu am gyfnod, a chartre Pedr. Ond mwy difyr i ni oedd gweld criw o Gymry Lerpwl yn y deml yno! Yna, teithio i Fynydd Tabor lle cafodd Iesu wedd-newidiad. Dyma brofiad dychrynllyd – gyrru i fyny ffordd gul, droellog, igam-ogam, i uchder o 1900 troedfedd, a meddwl am y llun Nefoedd ac Uffern sy'n hongian adre gen Mam.

Mewn safle arall safai Eglwys y Gwynfydau mewn cilfach dawel yn edrych allan ar Fôr Galilea a Thiberias. Rhaid hefyd oedd mynd i Nasareth, ond y cwbwl welsom yno oedd yr eglwys lle gafodd Mair gyfarchiad gan yr angel Gabriel.

Yna, torheulo ar harbwr hynafol Akko, a phicio i Jaffa i gael pryd blasus o shishlik (math o kebab) a chrwydro'r shukre neu'r bazaars.

Wrth ddod i derfyn y gwyliau dyma dreulio dwy noson mewn hostel yr ifanc yn Ein Gev ger y Môr Marw, a chyrraedd pinacl y cyfnod. Cawsom ddiwrnod yn torheulo yn y môr enwog hwnnw a phrofiad rhyfedd iawn oedd arnofio ynddo. Mae'n hollol wir nad oes bosib boddi ynddo.

Yn edrych dros y Môr Marw saif Mynydd Masada, a hwn i mi oedd gwefr y gwylie. I gyrraedd y mynydd (sydd yr un uchder â'r môr) rhaid oedd un ai cerdded neu gymryd car cêbl. Car cêbl oedd hi i ni – ond cerdded i lawr. Yma mae hanes difyr ond trist am gannoedd o Iddewon laddodd eu hunain o dan orthrwm y Rhufeiniaid. Taflasant bopeth dros y dibyn gan gynnwys pob dodrefnyn o'u heiddo. Y cwbl oedd ar ôl oedd dwy wraig a bwyd. Mae olion palas Herod a'r mosaics yma, ac adeiladau gweddol gyfan fel y popty a'r crochendy.

Dyne ddiweddglo gwych i'n arhosiad yng "ngwlad Iesu Grist", ond roedd y profiad mwyaf erchyll i ddod, sef cael ein harchwilio yn y maes glanio – pedair ohonom ar wahân yn cael ein croesholi am awr a hanner. Roeddem yn teimlo fel troseddwyr wrth hyd yn oed wenu!

Teimlade cymysg sydd gennai ar ôl bod yno – teimlo fel gwleidydd yn fwy na Christion; teimlo dicter tuag at lywodraeth Iddewig a'r anhegwch at yr Arabiaid brodorol, a theimlo gobaith o gofio un Palesteiniad yn deud "You in Wales will have your independence like us...one day."

Arad Goch
CWMNI THEATR DYFED
yn cyflwyno
Drama'r Fedal Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion Aberystwyth 1992
YN EIN DWYLO
gan
Pam Palmer
Hanes teulu o Lithuania ar adeg y frwydr dros annibyniaeth eu gwlad. Brwydr sydd yn ysbrydoli'r fam i wneud safiad gwleidyddol am y tro cyntaf erioed.
Cast: Mari Rhian Owen, Sior Llyfni, Rhys Bleddyn, Huw Garmon, Carys Gwilym, Mair Tomos Ifans, Idris Morris Jones, Sian Sumers
Cyfarwyddwr: Jeremy Turner    Cynllunydd: Steve Mattison
Sadwrn 3 Hydref: Theatr Congress, Cwmbrân
Llun 5 Hydref: Theatr Sherman, Caerdydd
Mawrth 6 Hydref: Theatr Sherman, Caerdydd
Perfformiadau i gychwyn am 7.30 o'r gloch
Am wybodaeth bellach cysylltwch ag Ellen ap Gwynn, Arad Goch - Cwmni Theatr Dyfed, Stryd y Baddon, Aberystwyth. Ffôn (0970) 617998

DECHRE CYCHWYN



Ffoniwch
Siân Johnston
Menter a Busnes
0222 761314

LITTLE GEMS
Meithrinfa Gymraeg a Saesneg
75 Wyndham Crescent, Canton
NEWYDD AGOR
Gofal drwy'r dydd i blant rhwng 2 a 5 mlwydd oed
Ar agor 8am – 6pm Llun - Gwener
Am ragor o fanylion
ffoniwch Mrs S M J Lane
0633 681020

## POBOL

# BYDDED GOLEUNI

EMLYN DAVIES



**PE BAWN I'N** cael fy hun ar banel rhyw seiat holi neu'i gilydd rywbryd yn y dyfodol, a rhywun yn gofyn i'r panelwyr draethu am y tro trwstan gwaethaf erioed yn eu hanes, fyddai dim rhaid i mi grafu pen yn hir iawn cyn meddwl am yr ateb.

Nos Wener, 24 Gorffennaf eleni oedd hi. Roedd y gynulleidfa niferus o Gymry da Caerdydd a'r cylch newydd gymryd eu seddau yn Theatr Reardon Smith. Roedd 'na dri chwarter awr i fynd cyn darlledu rhifyn arall o *Codi Cwestiwn* yn fyw ar S4C.

Am unwaith roeddwn i'n eithaf tawel fy meddwl na fedrai dim fynd o'i le. Fe gawson ni ymarfer technegol llwyddiannus iawn yn gynharach yn y prynhawn, ac roedd sganer darlledu allanol newydd Barcud yn sgleinio fel swllt tu allan i'r Amgueddfa, a'r generadur i gynhyrchu trydan ar gyfer y darllediad, a hwnnw'n canu grwndi'n rhythmig braf fel cath o flaen soser o lefrith.

Y drefn arferol am y chwarter awr nesaf yw fod y rheolwr llawr a minnau yn cael gair gyda'r gynulleidfa i egluro'r drefn. Dewi Rhys oedd yn gofalu am y llawr y noson honno ac wrth iddo ddechrau siarad, diffoddodd y goleuadau. Roeddwn i'n reit falch a dweud y gwir, gan fod y lampau'n medru bod yn annioddefol o boeth ar adegau.

Ar ôl i mi wneud y sylw arferol fod angen swllt i'r mityr trydan, a rhyfeddu at fy ffraethineb fy hun, wrth gwrs, dyma benderfynu tawelu unrhyw ofnau oedd gan y gynulleidfa am y tywyllwch. "Hwn fydd y rhifyn hawddaf o *Codi Cwestiwn* inni ei ddarlledu erioed" meddwn i'n llawn hyder. Ac roeddwn i'n teimlo fod gen i le i fod yn hyderus. Onid oeddem ni wedi darlledu'n fyw o bob cwr o Gymru, heb sôn am Lundain a Pharis?

Y gwir amdani yw fod darlledu o Baris yn haws na chael y signal yn ôl o Harlech. Pan oeddem ni yn Theatr Ardudwy, roedd y llun yn cael ei daflu oddi yno i ardal Clynnog Fawr, ymlaen i Gaernarfon, Bangor, Caer, Manceinion, Birmingham, Llundain, Bryste a Chaerdydd. Yn y cyfamser roedd y sain yn teithio o Harlech i Ddolgellau a thrwy Aberystwyth, Llambed a Chaerfyrddin i Gaerdydd. Ac yna, fe ddeuai'r sain a'r llun yn ôl at ei gilydd i gyd-symud yn berffaith ar eu taith yn ôl dros Gymru i gartrefi gwylwyr S4C.

"O'i gymharu â hynna", meddwn i'n llanc i gyd, "chwarae plant ydy darlledu'n fyw o Gaerdydd".

Nawr, ydych chi'n credu mewn temtio ffawd? Dydw i ddim, ond ar yr union eiliad honno dyma rywun yn sibrwd yn fy nghlust fod y jeni, sef y generadur, wedi rhoi ei besychiad olaf.

Roedd yr ugain munud nesaf yn hunllefus. Cysylltu ag S4C i egluro'r argyfwng, cnoi ewinedd tra roedd y Cyfarwyddwr Goleuo yn afon SOS allan i'r byd a'r betws am jeni arall, a dal fy ngwynt wrth i'r trydanwr fustachu ym mol y jeni.

Ond yn ofer.

Fe ddaeth pum munud i naw, ac fe aeth – a ninnau'n dal yn y tywyllwch.

Chawrae teg i Vaughan a'r panelwyr, fe gytunon nhw i gario 'mlaen fel pe bai popeth yn iawn er mwyn y gynulleidfa yn y theatr.

Yna, yn gwbl annisgwyl, fe daniodd y jeni i dir y byw, a'i grwndi melys yn falm i enaid pob un wan jac.

"Hylo S4C. Rydan ni mewn sefyllfa i ddarlledu. Dowch aton ni ar ben y munud nesa".

A dyna ddigwyddodd. Anghofia i byth y cynhesrwydd yn llais Robin Jones y noson honno yn cyhoeddi ein bod yn mynd drosodd i Theatr Reardon Smith i ymuno â Vaughan Hughes – yn fyw. Ochenaid fawr o ryddhad. Pawb yn gwenu ar ei gilydd, ac ymlaen â ni.

Ddau funud a thair eiliad yn ddiweddarach, mewn ffit o sbeit cwbl fwriadol, dyma'r jeni gythraul yn dechrau tagu a phoeri a phlycio a ffagio cyn plymio'r genedl gyfan i dywyllwch dudew ar bob sgrin deledu Es Bedwar Ecaidd.

Pe bai 'na roced gyfleus yn ymadael i gyfeiriad rhyw blaned bellenig y foment honno, fi fyddai'r cyntaf ar ei bwrdd. Ond doedd dim rhaid ofni. Diolch i'r drefn am gynulleidfa gefnogol Caerdydd, a hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb oedd yn Theatr Reardon Smith y noson honno am eu cydweithrediad.

Maen nhw'n dweud i mi fod y jeni fach yn well erbyn hyn. Gwell? Mi fyddai i'n llindagu'r gnawes os daw hi o fewn can milltir i mi.


## I'W OSOD

**Fflat fach**

**Stafell wely/lolfa, cegin**

**Rhannu stafell ymolchi**

**Ardal Penylan**

**0222 485604**



## I'W GOSOD

**Ystafelloedd yn y Rhâth**

**£25 / £30 yr wythnos**

**Cysyllter â**

**0222 464415**


## AR Y BRIG YN ABER

Llongyfarchiadau Eisteddfodol

- i Owenna Hopwood, Llandochau, am ennill y gystadleuaeth am Lyfr Lóg Ysgol Ddychmygol.
- i WM (Mac) Rogers, Croes Cwrlwys, am gyflawni'r un gamp am ei gasgliad o Straeon neu Anecdotau am Gymry Enwog
- ac i Rhian Ithel, Rhiwbeina, ar ei llwyddiant yn y gystadleuaeth am Nofel ar Ffurf Dyddiadur Bachgen Ysgol.

Hefyd, ac yn gerddorol:

- i Gôr Caerdydd (côr newydd sbon) dan arweiniad Gwawr Owen am gipio'r wobr yn y gystadleuaeth i gorau cymysg heb fod yn llai na 61 o leisiau
- i Anthony Stewart Lloyd (cyn-ddisgybl o ysgolion Bryntaf a Glantaf) am y gamp fawr o ennill Medal Goffa David Ellis, rhuban glas y cystadlaethau lleisiol
- ac i Ferched y Garth gyda'u harweinydd, Menna Thomas, am ddod â'r Eisteddfod i ben yn fuddugoliaethus ar y nos Sadwrn, drwy drechu corau cerdd dant o bob cwr o Gymru.

Oedd yna fuddugwyr eraill o blith dinasyddion Caerdydd? Rhowch wybod.

## ANNWYL DDINESYDD

Yn ddiweddar, a minnau am deithio i Lunden ar y trên, galwais heibio Capital Travel yn yr Eglwys Newydd i archebu tocyn teithio. Yno yn edrych ar y llyfrau gwyliau roedd Megan Williams ac felly cawsom ein dwy sgwrs fach mewn Cymraeg gloyw Sir Gaerfyrdin.

Yng nghanol y mynd a dod a sŵn cyfrifiaduron y swyddfa, dyma Megan yn troi at fachgen ifanc a ymddangosodd o'r stafell gefn a'i gyfarch yn Gymraeg, a ffeindio allan ei fod yn gweithio yn Capital Travel.

Felly ar ôl cael fy nghyflwyno a phwysleisio fod Aled yn dod o Lanelli, fel Megan, aeth y ddwy ohonom ymlaen â'n busnes.

Mor braf oedd hi i fedru gwneud y trefniadau teithio i gyd mewn Cymraeg graenus, cartrefol – nid dim ond ar lafar ond yn ysgrifenedig hefyd. Roeddwn am drefnu ad-daliad oddi wrth y Rheilffyrdd Prydeinig ar docyn trên na ddefnyddiais ychydig amser yn ôl, a dyma docyn credyd Access gyda'r manylion yn y Gymraeg drwy'r post ychydig ddyddiau yn ôl.

Felly chi Gymry Cymraeg, pan na ewch chi draw at Aled Richards yn Capital travel, 11 Heol Penllyn, yr Eglwys Newydd i drefnu a chael sgwrs am unrhyw broblem neu wyliau drwy gyfrwng eich mamiaith.

***Valmai Evans, Yr Eglwys Newydd***



# YN EI BLODAU

**Mae Mrs Blodwen Rees yn 84 mlwydd oed, ac am y tro cyntaf yn ei bywyd mentrodd anfon gwaith crosio a brodwaith i gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol Aberystwyth eleni. Daeth yn drydydd yng nghystadleuaeth Medal Aur y Campwaith Crefft. Yma mae hi'n dangos ei gwaith, ac yn sôn am ei diddordeb mawr mewn gwaith llaw a llestri hardd, wrth Catrin Lloyd Rowlands.**

Dyna beth oedd bore bythgofiadwy pan gês i'r cyfle i alw yng nghartre Mrs Blodwen Rees yn Llwynbedw, Caerdydd. Roedd yr ardd o flaen y tŷ yn llawn blodau lliwgar a phob dim yn dwt a threfnus – yn ddigon i godi calon unrhyw greadur swrth ar fore bach arall digon gwlyb ar ddechrau mis Medi.

Maen nhw'n dweud nad ydy e'n beth poleit i sôn am oed merch, ond roedd cyfarfod â Blodwen yn ddigon o donig i unrhyw un. A hithau bellach yn 84 oed mae hi mor fywiog a phrysur â rhywun ddeugain mlynedd yn iau.

Y peth cynta welais i wrth gerdded i mewn i'r ystafell fyw oedd ffrâm mawr gyda thapestri arno ar ganol ei wneud yng nghanol ystafell haul oedd yn arwain o'r ystafell fyw. Roedd pob pwythyn lliwgar yn ei le, a'r gwaith yn gywrain dros ben.

Pan ofynnais i Blodwen lle roedd hi wedi cael y ffrâm, "O anrheg gan y ferch-yng-nghyfraith ydy hwnna. Mae e wedi ei wneud yn arbennig gan nad yw'r maint yna ar gael yn y siopau gwaith llaw," meddai Blodwen.

Er fy mod i wedi cyfeirio at y gwaith yn y ffrâm fel tapestri, gwaith blaen nodwydd yw'r term cywir, wrth gwrs, ac mae unrhyw un sy'n gyfarwydd â'r dull yma o bwytho yn gwybod i'r dim ei fod yn waith mân iawn ac angen dyfalbarhad mawr.

"Rydw i'n lwcus fod gen i olwg reit dda, ac mae 'nwylo i'n reit ystwyth, diolch byth," dywedodd Blodwen, "ac mae'r gwaith crosio yn reit fân hefyd."

Yn ôl Blodwen doedd hi erioed wedi medwl am anfon ei gwaith i'r Genedlaethol, ond fe'i darbwyllwyd gan Alma Carter sy'n ffrind mawr iddi ers blynyddoedd. Ar gyfer y gystadleuaeth cynigiodd Blodwen liain bwrdd gogoneddus sy'n cyfuno crosio a brodwaith, a gorchudd gwely hardd dros ben.

Dywedodd y beirniaid fod ei gwaith crosio a brodwaith "yn dystiolaeth i le parhaol crefftwaith gain nad yw'n ceisio torri oddi wrth



# LLENWCH Y FFURFLEN: TUDALEN 11

## POBOL

hen draddodiadau". Fe gymerodd Blodwen ryw naw mis i wneud y prif waith, y lliain bwrdd.

Er fod Blodwen bellach yn ymddiddori mewn crosio a gwaith blaen nodwydd, teilwra fu ei phrif ddiddordeb ar hyd y blynyddoedd. Dangosodd imi liain bwrdd claerwyn – y gwaith crosio cyntaf iddi ei ddechrau bron i dri-chwarter canrif yn ôl. Fe'i rhoddodd o'r neilltu wrth i ddiddordebau eraill gymryd ei hamser, ond fe'i gorffennodd ychydig o flynyddoedd yn ôl. Felly dydw i ddim yn teimlo *mor* euog fod y lliain bwrdd ddechreuais i yn 1975 ymhell o fod heb ei orffen!

O'r Tymbl y daw Blodwen yn wreiddiol, er iddi gael ei geni yn Nhonypandy. Symudodd i teulu i'r Tymbl pan oedd hi'n bedair oed, a bu'n byw yno nes oedd hi'n ddeunaw. Yr adeg honno symudodd i Lundain i weini gyda theulu cyfoethog oedd yn byw mewn plasty yn Baker Street.

Ond cyn iddi fynd i Lundain, bu Blodwen yn wael am gryn amser ("Ond dydw i ddim wedi bod yn wael ers hynny" meddai wrthyf), a phan ddaeth hi o'r sanitorium roedd hi wedi penderfynu mai gwnïo oedd hi am ei wneud. Bwriodd ei phrentisiaeth gyda theilwres oedd yn byw rhwng y Tymbl a Cross Hands.



"Gwnïo oedd fy nileit i erioed – gwneud dillad i'r doliau a phethe felly pan own i'n groten fach. Roedd y fenyw 'ma'n fussy iawn, ac roedd y tu mewn yr un mor daclus â'r tu allan i bob dilledyn."

Wedi mynd i Lundain deallodd ei meistres (oedd fel mam iddi) ei bod hi'n un dda am wnïo, ac fe gafodd gyfle i wnïo iddi hi a'r teulu. Adeg hapus oed yr adeg honno cyn iddi gyfarfod â'i diweddar ŵr John, a fu farw wyth mlynedd yn ôl.

Cyfarfu'r ddau yn Hyde Park, lle roedd y Cymry'n ymgasglu ar nos Sul i ganu emynau. Saer oedd John, ac er mai yn Llundain y cyfarfu ef â Blodwen, roedd y ddau wedi eu magu rhyw saith milltir oddi wrth ei gilydd. Priododd y ddau a symud yn ôl i Gymru adeg y rhyfel, ac ymgartrefu yn y diwedd yn Richmond Road, cyn symud i Lwynbedw.

Ar hyd y blynyddoedd bu Blodwen yn brysur yn magu dau fab – gafodd eu geni yn Llundain – a John. Roedd hi'n troi ei llaw at bopeth – yn gwenud dillad i'r bechgyn, siwtiau i'w gŵr, a'i dillad ei hun.

"Fe golles i'r gŵr wyth mlynedd yn ôl, a dwi'n dweud 'yn lle iste a phendroni a rhyw ddwli felly dych chi ddim yn gwneud lles i'ch hunan, a chi'n gwneud pethe'n ddiflas i bawb arall o'ch cwmpas chi. Dyna pam ês i nôl i neud crosio a phethe felly."


"Rôn i wastad yn deud wrth y gŵr 'pan fydda i wedi dibennu â'r gwnïo, os bydd y llygad a'r dwylo'n para, dwi'n mynd i neud tapestri'. 'Anghofia fe! Wnei di byth mohono fe' medde fe. Ond pan wnes i rheina ddwedodd e ddim byd...ond rôn i'n gwybod ar ei wyneb ei fod e'n prowd!".

Cyfeirio oedd Blodwen at set o bedair cadair ystafell fwyta roedd hi wedi ail-gyfro â thapestri. Roeddent mewn glas cyfoethog â blodau lliwgar yn y canol. Roedd stôl biano wedi ei gwneud i gydfynd â nhw, a set arall o gadeiriau tebyg mewn stafell arall gyda lliw coch yn gefndir.

"Y tonig gore i rywun sy wedi dibennu gweithio yw ffeindio rhywbeth i'w cadw nhw i fynd" meddai Blodwen. Ac yn sicr mae hynny'n wir amdani hi. Yn ei chartref mae'r holl waith llaw, a llond lle o lestri gwerthfawr gan gynnwys llestri Abertawe a Nantgarw. Ac yng nghefn y tŷ mae gardd fawr yn llawn blodau o bob math.

Cyn bo hir bydd Blodwen yn mynd ati i godi'r blodau er mwyn cael lle i roi planhigion ar gyfer yr hydref a'r gwanwyn. Ond cyn cael gwared ohonynt, bydd yn casglu'r hâd a'u sychu dros y gaeaf fel bod ganddi ddigon yn barod ar gyfer eu hau yn y gwanwyn unwaith eto.

Yn ôl Blodwen, does y fath beth â "alla i ddim" yn ei geirfa hi. "Peidiwch â dweud 'alla i ddim' nes i chi ei drio fe. Os ydych chi'n methu, wedyn gewch chi ddweud 'alla i ddim'!"



## YN SYDYN

• Daeth ymateb i ymgyrch ariannol y Dinesydd o le annisgwyl iawn – ac o bellteroedd byd – a ddylai ddwysbigo cydwybod llawer sy'n nes adref. Diolch i Gwyn a Martha Rees, Plas y Coed, y Gaiman, y Wladfa am eu rhodd.

• A chroeso nôl i Riwbeina i Gwilym Roberts ar ôl treulio blwyddyn yn dysgu Cymraeg ym Mhatagonia. Mae'n amlwg iddo gael profiad oes, ac ni fydd hi'n syndod ei weld yn dychwelyd yn y dyfodol.

• Llwyddodd John Wyn Williams, mab Mari Wyn a'r diweddar Ifan Wyn Williams, yn arholiadau y Bar yn Ysbyty'r Frawdlys (Gray's Inn) yn Llundain. Bydd yn ymuno â Siambr yn Abertawe.

• Penodwyd Siriol Bunford yn Ddirprwy Swyddog Cyhoeddusrwydd teledu Carlton, cwmni teledu newydd Llundain. Bu'n gweithio'n ddiweddar i gwmni cyhoeddi Harper Collins a chylchgrawn Elle, a chwmni Strata'Matrix yng Nghaerdydd.

• Dafydd Rhys fydd Comisiynydd Adloniant Ysgafn nesa S4C, yn symud o'i swydd yn comisiynu rhaglenni plant i'r sianel. Roedd yn un o sylfaenwyr cwmni Criw Byw ar ôl gadael HTV Cymru.

## CALENDAR

**14 MEDI**
Taith Rhyddid i'r Ifanc, Ysgol Llanhari

**15 MEDI**
Taith rhyddid i'r Ifanc, Ysgol Cwm Rhymni

Owain Glyndwr, darlith gan Dr John Davies. Cymdeithas Cwmhuanow, Clwb Ifor Bach

**16 MEDI**
Taith Rhyddid i'r Ifanc, Ysgol Rhydfelen

**17 MEDI**
Taith rhyddid i'r Ifanc, Ysgol Gwynllyw

**19 MEDI**
Sobin a'r Smaeliaid, Clwb Ifor Bach

**21 MEDI**
Taith Rhyddid i'r Ifanc, Ysgol y Cymer

**23 MEDI**
Taith Rhyddid i'r Ifanc, Ysgol Glantaf

**26 MEDI**
Hanner Pei a Diogrechiant, Clwb Ifor Bach

**29 MEDI**
Cychwyn Cyrsiau Iaith Cymdeithas yr Iaith i ddysgwyr, Ty'r Cymry

**3 HYDREF**
Rali Cymdeithas yr Iaith, y Swyddfa Gymreig

Ty Gwydr a WWZZ a Diffiniad, Clwb Ifor Bach

**9 HYDREF**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd

HEL MEDDYLIAU

# LLYTHYR AGORED AT IFOR REES

HUW ETHALL

**ANNWYL IFOR,**

Dylwn dy longyfarch i ddechrau ar gael dy ddewis i offrymu Gweddi'r Orsedd yn yr Ŵyl Fawr yn Aberystwyth, ond gan nad wyt cystal lleisiwr â Syr Geraint, barnaf i ti wneud llawer mwy o gymwynas trwy roi i ni'r gyfrol *Bro a Bywyd, Aneurin Talfan Davies 1909-1980.*

Diolch yn fawr i ti amdani. Dylai'r Dinesydd o bawb sôn amdano fel hyn, a rhoi sylw iddo yn ei ddinas ei hun. Mae'r stori drwyddi'n rhamant. Pwy arall yn hanes Cymru a ddechreuodd ei yrfa fel fferyllydd a gorffen fel cynhyrchydd, gweinyddwr a chyfarwyddwr yn y BBC?

Pan fo cyfres fel hon yn ymddangos, mae'n demtasiwn fawr i gymharu'r cyfrolau gwahanol â'i gilydd. Ond onid yw pob un yng nghyfres *Bro a Bywyd* yn arddderchog? Priodas ddelfrydol yw priodi llun a gair a gwneud y gyfres hon yn un o lwyddiannau mawr y Wasg Gymraeg.

Diolch am ddethol y lluniau mor ofalus a difyr. Fe hoffais i lun y gwerinwr John Lôn yn fawr, "yr hen gymeriad garw, gwreiddiol a duwiol" (a buasai ATD yn falch dy fod wedi ei gynnwys ef rwy'n siwr). Bydd Rhydwen yntau'n falch i weld ei lun pan oedd y byd yn ifanc; hyfryd yw gweld wyneb cyfriniol y bardd David Jones a wyneb RG Berry a llu, llu o luniau diddorol ac atyniadol eraill.

O gofio mai'r gair llafar oedd prif gyfrwng ATD fel darlledwr radio, rhyfeddod yw sylweddoli unwaith eto yr holl weithiau ysgrifenedig a adawodd ar ei ôl, yn farddoniaeth, storiau byrion, beirniadaeth lenyddol ("un o'r tri neu bedwar beirniad llenyddol mwyaf deallus" yn ôl Bobi Jones), ac yn awdur llyfrau taith. Ac i goroni'r cwbwl, roedd yn Ewropeaidd o Gymro cyn i'r ymadrodd hwnnw ddod yn ffasiynol.

Hoffais rai o'i berlau fel: "Y mae cymaint o angen gweledigaeth a dychymyg y bardd wrth lunio rhaglen nodwedd ag wrth lunio awdl neu bryddest"; "...un o'r profiadau nad anghofiaf mohono fyth oedd cynhyrchu'r bryddest hon (*Swn y Gwynt yn Chwythu* Kitchener Davies) a'r darllenwyr a minnau gyda hwy yn ein dagarau.

Oni ddylem fel Cymry Caerdydd bererindota unwaith y flwyddyn o leiaf at ei fedd ym Mynwent Eglwys Gadeiriol Llandaf a phlygu glin mewn diolchgarwch mawr amdano?

Diolch eto am y gymwynas.

COFIO

# D LLEWELYN WALTERS

IEUAN DAVIES

**AR 14 AWST** bu farw D Llewelyn Walters yn 78 oed. Fe'i magwyd ym Merthyr Tudful, a'i aelwyd ysbrydol yng nghapel Soar yn ganolbwynt ei fywyd llawn. Yn yr ysgol fe'i cyflwynwyd i waith WJ Gruffydd, a dyna ddechrau perthynas arbennig rhwng Llew a'r llenor.

Y 1932 lluniodd epig ar yr Arglwydd Rhys ar gyfer Eisteddfod yr Urdd ym Machynlleth, lle cipiodd y wobr gyntaf. Eleni yn Barn cafwyd ystyriaeth glir ganddo o rai o gerddi cyfarwydd Gruffydd – trigain mlynedd o edmygu a gwerthfawrogi.

Cafodd Llew ei addysg brifysgol yma yng Nghaerdydd, a bu dylanwad GJ Williams, TJ Morgan a WJ Gruffydd yn allweddol, ynghyd â chyfeillgarwch Meurig Walters, Geraint Bowen ac Alun Llywelyn Williams.

Un modd llawen o gyd-swmera fel efrydwyr oedd Crwydro – y Fro a'r Bannau, a'r daith apocalyptaidd honno drwy Gymru. Bu crwydro yn y gwaed wedyn, a theithiodd â'i deulu i fannau cyn belled ag Israel a Rwsia - dros y tir mewn Bedford Dormobile.

Ganol y 30au, gydag A.Ll Williams, sefydlodd y Tir Newydd (rhagflaenydd y Gaer a'r Dinesydd), yn casglu deunydd, cywiro proflenni a dosbarthu. Yr un adeg bu Llew yn gyflwynydd radio rhanamser. Dywedoddam yr adeg honno "Mae cyffro o gofio'r cyfnod. Gwynfyd oedd bod yn fyw a nefoedd bod yn ifanc."

Trodd gwynfyd yn feinfyd ym 1939; bu Llew, fel ei gyfaill mawr Dr Glyn Jones, yn wrthwynebydd cydwybodol a chostiodd eu safiad gwrol yn ddrud iddynt.

Priododd Olwen ym 1940, a dechrau partneriaeth liwgar a llawn, a Iolo'r mab yn cyflawni eu llawenydd. Trasiedi drist fu ei marwolaeth ddamweiniol annamserol hi, ond eto ni ddangosodd Llew chwerwder na hunan-dosturi, dim ond hiraethu tawel.

Yn Rhiwbeina bu'r cartre, ac yn gynnar yn y 40au daeth Dr a Mrs Iorwerth Peate yn gymdogion, a dyna agor pennod o gyfeillgarwch a barodd am dros ddeugain mlynedd. Yn Rhiwbeina hefyd bu Llew yn athro a phrifathro mawr ei ddylanwad am 24 o flynyddoedd.

Er iddo dreulio cynifer o flynyddoedd yma yn y ddinas, cyffesai mai "o Ferthyr y deuai'r awel." Ond bu Minny Street yn ogystal yn amlwg iawn yn ei fywyd, lle bu ei gyfraniad mewn ffyddlondeb a gweithgarwch yn aruthrol, fel diacon, ysgrifennydd, ac athro Ysgol Sul am dros 50 mlynedd.

Roedd yn ŵr annwyl a doeth, un o ddiwylliant eang, ac o ddiddordebau lu. Dyn o chwaeth, gŵr ysbrydol. Anadlodd faeth ac awyr iach i'w gwmni, hyd yn oed o'i wendid yn ei wely. Er colli nerth corfforol, roedd ei enaid ar dwf hyd y diwedd.

*Llywelyn ein llyw heulog – i'n heglwys*
*Yn hyglod dywysog;*
*Y duwiol, grasol, gwresog*
*Ti yw ein lles, ti yw'n llog*

***Aled Gwyn***

# BEN THOMAS

EI GYDWEITHWYR YN COFIO

**GYDA GOFID** o'r mwyaf y clywsom ni, wyddonwyr yn Ne Cymru, am farwolaeth Dr Ben Thomas ar 29 Mehefin ar ôl gwaeledd byr.

Ganed Ben yng ngorllewin Cymru a chafodd ran o'i addysg yn Ysgol Ramadeg Llandysul. Odi yno aeth i Brifysgol Birmingham lle graddiodd mewn ffiseg. Wedi cyfnod fel peloit yn yr awyrlu aeth i Brifsygol Hull lle cafodd radd PhD am ei waith ar effaith niweidiol pelydredd mewn crisialau.

Ym 1959 fe'i benodwyd yn ddarlithydd poblogaidd yn UWIST, oedd newydd ei sefydlu yng Nghaerdydd. Fe'i ddyrchafwyd yn uwch-ddarlithydd ac yna'n ddarllenydd mewn Ffiseg a Pheirianneg Drydanol. Roedd yn aelod allweddol o'r adran beirianneg pan gyfunwyd yr Athrofa a Choleg y Brifysgol, Caerdydd yn yr 80au.

Roedd gwaith ymchwil cynnar Ben yng Nghaerdydd yn ymwneud â soledau sy'n ymfflachio, ac roedd ganddo ddiddordeb mawr yn y posibilrwydd o'u defnyddio yn y byd meddygol, a pharhaodd ei ddiddordeb mewn ffiseg meddygaeth drwy gydol ei yrfa.

Erbyn y 70au roedd Ben yn adnabyddus iawn yn y byd gwyddonol am ei waith arloesol gyda lasers a wnaed o led-ddargludion, a bu'n gyfrifol am gychwyn cynhadledd flynyddol i ddadansoddi agweddau o'r maes.

Meddai Ben ar allu arbennig i gyflwyno gwyddoniaeth yn gyhoeddus yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac roedd ei argyhoeddiad ynglŷn â'r angen i gyflwyno a datblygu gwyddoniaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn ddwfn iawn. Bu'n arbennig o weithgar gyda datblygu materion gwyddonol yn yr Eisteddfod Genedlaethol, a bu'n cyflwyno gwyddoniaeth i'r ifanc yn y Gymraeg ar y radio a'r teledu.

Roedd Ben a'i wraig Joan yn ddisgyblion gyda'i gilydd yn Llandysul, ac fe'u priodwyd pan oedd Ben yn gweithio yn Hull. Roedd ganddo feddwl mawr iawn o'i blant Susan a Huw, ac yn dra balch pan ddaeth yn dadcu i Angharad Sian.

Bydd colled enfawr ar ôl Ben ym myd addysg a diwylliant Cymru, ac cholled drom i wyddonlaeth yn gyffredinol. Y mis hwn roedd fod i gadeirio un o'r cyfarfodydd yng Nghynhadledd Ryngwladol Lasers Soledau yn Japan. Mae ei farw sydyn yn golled fawr i'r maes rhyngwladol hwn.

Fel cydweithwyr i Ben, cyflwynwn ein cydymdeimlad dyfnaf i Joan a'r teulu. Collwyd gŵr a thad a thadcu, ac aelod brwd iawn o'r tîm gwyddonol.

# ARTHUR DAVISON

ELIN EDWARDS

**TRIST IAWN** oedd clywed am farwolaeth Arthur Davison a fu'n ysbrydoliaeth i gynifer o offerynwyr ifanc Cymru dros y blynyddoedd.

Roedd yn enwog fel arweinydd proffesiynol, yn gweithio gyda cherddorfeydd gorau Prydain a'r byd, ond eto ei bleser mwyaf oedd gweithio gyda phlant a phobol ifanc.

Ym 1966 fe'i gwahoddwyd i arwain Cerddorfa Ieuenctid Cymru, neu'r 'Nash' fel y'i gelwid – a derbyniodd yr her. Bu'n arwain y Nash am ymron i 25 mlynedd, ac yn y blynyddoedd hynny mae miloedd o offerynwyr ifanc wedi elwa o'i hyfforddiant, a phrawf o'i lwyddiant yw gweld cynifer o Gymry yn llwyddo fel cerddorion proffesiynol ledled y byd.

Roedd yn ddyn arbennig iawn – yn gawr o ddyn – yn disgwyl ac yn llwyddo cael cant y cant allan o'i gerddorion, gan godi safon y gerddorfa bron i safon proffesiynol.

Mae cofio Arthur Davison yn dwyn i gof y ddau air hynny 'parchedig ofn', ond roedd 'na hefyd ochr annwyl iawn a direidus i'w gymeriad. Mawr iawn yw dyled pob cerddor o Gymru ar ei ôl.

# LLENWCH Y FFURFLEN HON NAWR!

**PROMS CYMRU**

# ARWAIN OWAIN

WYNNE LLOYD

**ENW** mwy priodol ar gyfer yr ŵyl gerddorol hon fyddai Proms Owain Arwel. Fe a'i lluniodd o'r dechrau, ac ar ôl saith mlynedd, fe sy'n dal i wneud. Fe sy'n llywio'r cyfan o ran y dewis cerddorol, ac sy'n arwain y saith cyngerdd. Go brin y cewch chi sefyllfa debyg yn unman arall.



• Owain Arwel Hughes yn ei afiaith yn ei Proms

Does dim dwywaith am lwyddiant y gyfres eleni eto. Dros gyfnod o ddeng niwrnod cafwyd saith cyngerdd gan bum cerddorfa broffesiynol, unawdwyr offerynol a lleisiol talentog fel Julian Lloyd Webber a Tasmin Litte, a chôr meibion. Denwyd cynulleidfaoedd mawrion i bob noson gyda sawl un yn orlawn.

Mae'r awyrgylch yn Neuadd Dewi Sant yn llawn afiaith, ac mae naws adloniadol yn codi'n ferw o hwyl a miri erbyn y 'noson olaf'. Mae'n dipyn o garnifal gyda pheiriant marchnata'r brifddinas yn amlwg.

Mae'r Proms yn llwyddo i ddenu llawer iawn nad sy'n mynychu cyngherddau cerddorfaol yn rheolaidd. Mae'r rhaglenni, ar y cyfan, wedi eu llunio yn fwriadol i dynnu pobol i'r neuadd. Clywir llawer iawn o gerddoriaeth gyfarwydd yn cael perfformiad digon teilwng. Mae safon uchel i'r perfformiadau, ond go brin y caiff dyn ei ysgwyd neu ei wefreiddio.

Ar y cyfan mae'r dewis o gerddoriaeth yn boblogaidd, ond bydd Owain yn rhoi lle i rywbeth llai cyfarwydd. Eleni, er enghraifft, cyflwynodd waith anghyfarwydd y Sibelius ifanc, y gerdd symffonig Kulervo. Mae'r gwaith hwn, sydd â'i wreiddiau ym mytholeg y Ffindir, yn gofyn am gôr meibion ac unawdwyr yn ogystal â cherddorfa fawr. Dyma'r tro yntaf i'r gwaith gael ei berfformio ym Mhrydain yn yr iaith Ffineg gan gôr ac unawdwyr o Brydain. Yn y datganiad hwn gwahoddwyd Côr Meibion Treorci, Helen Field a Jason Howard i gyflwyno'r gwaith epig.

Yn y perfformiad teilwng iawn o Elias, roedd y pedwar unawdydd yn gantorion o Gymru. Mae hyn yn rhan o bolisi'r arweinydd, a da hynny.

Prin yw'r lle a roddir i gyfansoddwyr o Gymru, ond ar y 'noson olaf' fe wneir ychydig o iawn am hynny. Mae'r noson hon, diolch i'r drefn, wedi newid er gwell wrth beidio â bod yn efelychiad slafaidd o noson olaf Proms Llundain. Mae'r elfen imperialaidd yn dal yno, ond i raddau llai.

Yn ei lle daeth gwaith gwreiddiol Gareth Wood, lle caiff y gynulleidfa gyfle da i ymuno yn yr alawon Cymreig, gan orffen gydag *I Bob Un*. Mae'r noson hon, bellach, dipyn iachach nag y bu.

Mae'r ŵyl hon wedi cydio yn nychymyg y cyhoedd, ac yn arbennig y bobol nad ydynt fel arfer yn dod i Neuadd Dewi Sant ar adegau eraill o'r flwyddyn. Gobeithio y caiff glust gan ei fod yn berswadiwr da, yn gyfathrebwr llwyddiannus, ac yn bersonoliaeth hoffus a heintus ei frwdfrydedd.


**ADRAN YR URDD TRECELYN**

yn eisiau

**ARWEINYDD**

i gymryd gofal am 20-30 o aelodau brwdfrydig yn wythnosol ar brynhawn Mawrth am 5pm

Cysyllter â Wyn Mears am fanylion pellach

**ffôn 0222 758726**


## Eich cyfle chi i helpu'r Dinesydd

**TANYSGRIFIWCH £15 I DINESYDD 2000**

**Dymunaf gyfrannu'r swm isod yn flynyddol i Dinesydd 2000**

☐ **£15**

☐ **swm arall (nodwch faint) £ ______**

Enw: ______

Cyfeiriad: ______

Rhif ffôn: ______

Dymunaf dalu â siec ☐ ticiwch yma os dymunwch gael derbynneb am eich siec ☐

archeb banc ☐ (llenwch isod)

**Archeb Banc**

I Fanc ccc ______

Cangen ______

Byddwch cystal â thalu i Fanc y National Westminster, 10 Heol Hendre, Pencoed, Penybont ar Ogwr, Morgannwg Ganol CF35 5NW (Rhif côd didoli 60-16-48) i gredyd Dinesydd 2000 rhif 56401388, y swm o £ ______ i ddechrau ar ___/___/___ ac wedyn bob blwyddyn/6 mis (dileëwch fel bo'r angen) hyd nes y derbyniwch rybudd pellach gennyf/gennym, a debydu fy/ein cyfrif yn unol â hynny.

Cyfrif i'w ddebydu ______

Rhif y cyfrif ______

Llofnod(ion) ______

Dyddiad ______

**Llenwch y ffurflen, ei rhoi mewn amlen a'i dychwelyd at**

**Dinesydd 2000**

**℅ Surrexit Cysylltiadau Torfol**

**Rhadbost - Freepost**

**Parc Afon, Bridge Road**

**Ystum Taf, Caerdydd CF4 1ZZ**


**Huw Roberts** BSc, ACMA

*Cyfrifydd*

Aelod o FIMBRA

*Cyngor ariannol annibynnol ar gyfer treth, pensiynau ac yswiriant personol*

Y Rhodfa, 5 Pine Court, Forest Hills, Talbot Green, Morgannwg Ganol CF7 8LA

Ffôn Llantrisant (0443) 224182

# CYFRES

# MATERION CYFOES

# BBC CYMRU

# BOB NOS IAU

# AR S4C

# TARO NAW

*OES 'NA BWNC LLOSG NEU STORI YN EICH HARDAL CHI SY'N HAEDDU SYLW CENEDLAETHOL? MAE TÎM TARO NAW, UNED MATERION CYFOES BBC CYMRU, AM GLYWED GAN UNRHYW UN SYDD Â SYNIADAU CYFFROUS AR GYFER EIN CYFRES NEWYDD.*

*CYSYLLTWCH Â NI:*
*SWYDDFA TARO NAW, YSTAFELL E1105, BBC CYMRU,*
*LLANDAF, CAERDYDD CF5 2YQ*

BBC
CYMRU